**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: PO/JB/607/2025
Ein cyf/Our ref: PO/JB/ WQ97668

25 Tachwedd 2025

Annwyl Darren Millar AS,

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig i'r Senedd (cyf WQ97668) mewn perthynas â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu cyn-filwyr yng Nghymru i gael mynediad at dai cymdeithasol o ganlyniad i feini prawf cysylltiadau lleol.

Yng Nghymru, gall unrhyw un, gan gynnwys cyn-filwyr a phersonél y lluoedd arfog, fod yn gymwys i gael dyraniad o dai cymdeithasol mewn unrhyw awdurdod lleol y maent yn gwneud cais iddo, waeth a oes ganddynt gysylltiad lleol ai peidio, ar yr amod nad ydynt wedi'u anghymhwyso nac yn anaddas am resymau eraill. Ym mis Rhagfyr 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth a ddaeth â'r dull yn Lloegr yn unol â'r sefyllfa sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

Yn ogystal â'r hawl bresennol hon i wneud cais am dai cymdeithasol yng Nghymru, mae fy swyddogion hefyd yn ystyried mecanweithiau ychwanegol i sicrhau nad yw cyn-filwyr yn cael eu dad-flaenoriaethu ar gyfer tai cymdeithasol mewn awdurdod lleol lle nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad lleol.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.